


From: 
To: Wylfa@pins.gsi.gov.uk
Subject: Amend EN010007-003088-18 to reflect withdrawal of NG's DCO
Date: 12 March 2019 23:00:55

Wylfa@pins.gsi.gov.uk

Hoffwn gofnodi fy mhryder am y broses gynllunio mewn perthynas a'r datganiad o dir cyffredin rhwng Horizon a'r Grid Cenedlaethol yn EN010007-003088-18. Mae'r Grid Cenedlaethol bellach wedi tynnu eu cais DCO yn ôl 20/2/2019 felly ni ddylid mwyach gynnwys cyfeiriadau at gynlluniau'r Grid Cenedlaethol i drosglwyddo ar gyswllt peilonau 400kV yn DCO Horizon.

Gwyddoch fod y farn gyhoeddus, ers 2012, wedi mynd yn groes i gynllun y Grid Cenedlaethol ac y bu dros 800 o ymatebion i wahoddiad yr Arolygaeth Gynllunio ar ddechrau'r broses ymchwilio DCO'r Grid. Mae'r ymatebion yn cyfeirio at bryderon ffeithiol eang a helaeth nad ydynt bellach yn cael eu harchwilio gan yr Arolygaeth Gynllunio. Erys y farn nad yw'r Grid Cenedlaethol wedi rhoi ystyriaeth deg i ddulliau eraill i drosglwyddo'r ynni, nag ystyriaeth deg i effaith eu cynllun peilonau a'r camau lliniaru priodol. Oherwydd gwrthwynebiad llethol y trigolion lleol, gan gynnwys eu holl gynrychiolwyr democrataidd, boed yn Aelod Seneddol, Aelod Cynulliad, neu yn Gynghorau Sir neu Gymuned, rhaid i'r broses barhau i fod yn agored a thryloyw. Mae parhau gyda'r ddogfen gyfredol yn rhoi'r argraff fod y Grid yn manteisio ar ddrysych statws cyfredol cais DCO Horizon a'u cais DCO hwy sydd bellach wedi ei dynnu yn ôl. Dehonglir yr ymgais i gynnwys y cynllun peilonau yng nghais DCO Horizon fel ymgais drws cefn i gyflymu'r broses i NG y tro nesaf byddant yn cyflwyno cais trosglwyddo, gan amddifadu'r cyhoedd o broses agored a thrwyadl o'r newydd, gan gynnwys ymchwiliad o'r newydd gan yr Arolygaeth Gynllunio.

Dyma esiamplau o gyfeiriadau nad ydynt bellach yn ddilys yn nogfen Horizon a baratowyd ar 19/2/2019, diwrnod cyn cadarnhau dileu cais y Grid Cenedlaethol 20/2/2019:

1.2.3. To ensure compliance with these standards National Grid is promoting a second 400kV connection between the Wylfa and Pentir substations.

1.5.1 National Grid has identified the need to provide a new 400kV double circuit transmission line between the existing substation at Wylfa in Anglesey and the substation at Pentir in Gwynedd in order to reinforce the Transmission System.

1.5.3. An onshore connection was identified by NGET as the preferred technology to connect the Wylfa Newydd Project; comprising a route through Anglesey and North Gwynedd made up of pylons and a tunnel underneath the Menai Strait

1.5.4. Horizon supports the NGET onshore reinforcement, comprising a double circuit overhead line between Wylfa substation and Pentir Substation, as their preferred means of enabling the export of power from Wylfa Newydd.

1.5.5. NGET submitted its NWC application for a DCO to the Secretary of State for Business, Energy and Industrial Strategy ('BEIS') on 7 September 2018, the application was accepted for examination on 4 October 2018 with examination expected to commence in Q2 2019.

3 Current Position 3.1 Position of Horizon Nuclear Power and NGET

3.1.1 The following schedule (sets out the position of NGET alongside Horizon's position as of 19 February 2019. It sets out matters by topic area and an indication of whether the issue is agreed (green), not agreed (red) or ongoing (amber).

3.1.2 In light of the suspended state of the Wylfa Newydd Project, any timescales outlined in this SoCG will need to be reviewed and updated once the future prospect of the project is better understood. Both parties agree that the agreements and conclusions remain valid as at the date of National Grid signature.

[The document is dated 19th February 2019 but these points are invalidated when National Grid withdrew their DCO as confirmed by the Planning Inspectorate 20th of February 2019.]

Hoffwn felly i'r Arolygaeth Gynllunio sicrhau fod Horizon yn dileu unrhyw gyfeiriad at gynlluniau i drosglwyddo ynni ar beilonau o DCO Horizon er mwyn peidio rhagfarnu'r broses ymgynghori a chaniatad i'r dyfodol.

Cynghorydd H Huws

This email has been scanned by the Symantec Email Security.cloud service.
For more information please visit <http://www.symanteccloud.com>
